Taith Eryri – 3¾ milltir
Nantgwynant a Chraflwyn

YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL
THE NATIONAL TRUST
Supported by RIAS

Yn un o ddyffrynnoedd mwyaf ysblennydd Cymru, mae Nantgwynant wedi ei amgylchynu â mynyddoedd uchel, gyda'r Wyddfa'n codi tua'r gogledd. Mae'r daith iachusol yn fforio tirwedd hanesyddol, yn gyfoethog mewn chwedloniaeth yr Oesoedd Tywyll, gyda gweddillion mwyngloddiau copr o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg i'w gweld ar y rhan fwyaf o'r daith. Mwynhewch raeadrau dramatig, golygfeydd ardderchog a'r cyfle i gael cip ar amrywiaeth o fywyd gwyllt wrth i chi ddringo drwy Hafod y Llan, fferm yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, croesi'r bryn a disgyn i Graflwyn, neuadd a stad Fictorianaidd.
Cychwyn: Bethania - OS Explorer 17 map – cyf. grid: SH 599489

Mynd yno a chyfleusterau…
I'r gorllewin o Feddgelert ar yr A498. Bws yn stopio a chychwyn ar ddiwedd y daith, ar lwybr bws rheolaidd Porthmadog-Beddgelert-Betws y Coed. Toiledau a pharcio ym Methania a Chraflwyn. Pwynt gwybodaeth a llety yn Neuadd Craflwyn a siopau ym Meddgelert.

Pwyntiau diddorol…

- **Stad Craflwyn**
  Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg fe dirluniwyd y tir amaethyddol yng Nghraflwyn ac fe gyflwynwyd coed egsotig. Roedd Rhododendron yn arbennig o ffasiynol ac fe'i plannwyd o gwmpas y stad. Yn awr mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio'n galed i atal lledaeniad y rhododendron, gan ei fod yn mygu planhigion eraill ac mae'n wenwynig i anifeiliaid. Mae'r gwaith clirio cadwraethol hwn wedi datgelu gardd goediog gyda phyllau, creigfeydd a rhaeadrau!
- **Neuadd Craflwyn**
  Daeth Craflwyn i feddiant yr Ymddiriedolaeth yn 1994. Roedd wedi ei esgeuluso ac yr oedd angen llawer iawn o adferiad. Mae'r plasty Fictorianaidd yn awr wedi ei addasu'n ganolfan lle bydd gwirfoddolwyr yn aros wrth helpu gyda gwaith cadwraethol. Gallwch ei hurio hefyd ar gyfer priodasau!
- **Dinas Emrys**
  Allwch chi ddim methu'r fryngaer yma i'r dwyrain o Graflwyn. Chwiliwch am lwmp mawr o graig wedi ei gorchuddio â llwyni, coed a chlogfeini. Roedd unwaith yn strwythur amddiffynol ac mae yna dystiolaeth o setliadau o'r ganrif gyntaf. Mae chwedlau lleol yn cynnwys hanesion am ddraig goch a gwyn a Brenin a ffodd yma i ddianc rhag y Sacsoniaid.
- **Mwyngloddio**
  Fe gloddiwyd copr a sylffwr yn y bryniau y tu cefn i Graflwyn yn ystod y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Caewyd y pwll olaf dros 100 mlynedd yn ôl ond ond mae olion y siafftiau'n dal ar y tir.
- **Waliau cerrig sych**
  Mae waliau o'r drydedd ganrif ar ddeg yn dangos for mynachod canoloesol wedi bod yn ffermio'r tir yng Nghraflwyn. Ond mae'r rhan fwyaf o waliau'n ddim ond ychydig gannoedd o flynyddoedd oed. Mae amrywiaeth annisgwyl o anifeiliaid ac adar yn ymgartrefu mewn waliau cerrig sych, yn cynnwys y dryw, y llyffant, llygod a'r robin.

Mae rhostir grugog yn Eryri'n troi bryniau'n binc yn niwedd yr haf. Mae pen gogleddol y stad yn rhostir cyfoethog o ferywen a grug. Mewn mannau eraill mae derw lwerydd yn darparu cynefin ar gyfer llawer o adar ac ystlumod.

© NTPL / David Noton

Math o frân yw'r Frân Goesgoch gyda phig coch. Fe'i gwelir yn nyffryn Nantgwynant ynghyd â'r gigfran (yr aelod mwyaf o deulu'r brain). Mae gan y gigfran alwad ddofn nodedig 'cronc, cronc' sy'n eitha gwahanol i frain eraill.

© Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Credir bod yr enw Craflwyn yn tarddu o "**Criafolen**". 800 mlynedd yn ôl fe roddodd y Tywysog Llywelyn Fawr y tir i fynachod Sistersaidd. Yn y diwedd, ar ôl olyniaeth o berchnogion ar hyd y canrifoedd, daeth i feddiant teulu Victorianaidd cyfoethog a adeiladodd y neuadd bresennol.

Gwelir geifr mynydd Cymreig yn aml ym mryniau Eryri. Mae yna oddeutu 1,000 yn yr ardal felly mae gennych siawns go dda o'u gweld ar y daith hon!

Y daith a chyfrawyddiadau

1. Cychwyn yn y maes parcio ar yr A498, ger Bethania. Dilyn Llwybr Watcyn Path (sy'n mynd i gopa'r Wyddfa) ar draws y ffordd tua'r gogledd gyda choetir derw ar y chwith.

2. Unwaith y byddwch chi wedi esgyn uwch y coetir, mae yna olygfa fendigedig o raeadr Afon Cwm Llan. Mae'r grib ar y chwith yn gartref i lawer o blanhigion, yn cynnwys y ferywen.

3. Gadewch Lwybr Watcyn a throi i'r chwith ar lwybr. Mwynhewch banorama eang o'r dyffryn, Llyn Dinas a'r mynyddoedd o amgylch.

4. Parhau ar y llwybr hwn, mynd drwy wal cyn dod i Fylchau Terfyn. Rydych yn awr ar dir fferm yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n cael ei reoli mewn ffordd sy'n amgylcheddol sensitif. Mae gwartheg duon Cymreig yn pori'r tir hwn, gan ei gadw yn y cyflwr gorau ar gyfer planhigion drwy atal gordyfiant gweiriau a llwyni arbennig. Ychydig ymhellach draw, croeswch wal gerrig sychion gan ddefnyddio'r gamfa.

5. Cerddwch i fyny drwy'r grug nes i chi gyrraedd y pwynt uchaf ar y daith hon (315m). Gallwch weld pentref Beddgelert oddi yma a rhybuddion fod yna hen siafftiau mwyngloddiau copr o gwmpas. Mae ystlumod yn byw yn hen weithiau'r mwyngloddiau. Disgynnwch i lawr ochr y bryn, croesi nant ar gerrig sarn, a thros gamfa.

6. Ewch heibio i adfail ysgubor (a ddefnyddiwyd unwaith yn gysgod i anifeiliaid) a dilyn y marciau at gamfa arall sy'n arwain i Stad Craflwyn. Cadwch at y llwybr nes y dowch at gyffordd T, yna trowch i'r chwith a cherdded i lawr i adeiladau'r stad a'r maes parcio. Ar y chwith i chi mae safle hanesyddol Dinas Emrys. Dychwelwch ar fws neu ar hyd y dyffryn ac o amgylch Llyn Dinas

Tirwedd a hygyrchedd

Mae hon yn daith 6km (3¾ milltir) sy'n eithaf egnïol ac iachusol gyda'r dewis o ddychwelyd ar hyd llwybr y dyffryn neu ddal bws. Rydych yn cerdded ar arwynebedd sy'n naturiol yn anwastad gydag amryw o adrannau sy'n esgyn a disgyn.



© Atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Arolwg Ordnans. Cedwir pob hawl. Rhif trwydded OS AL 100018591

Lleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol gerllaw i ymweld â nhw: Aberglaslyn, Cwm Idwal, Tŷ Mawr Wybrant, Plas Newydd, Bodnant

Fel elusen, yn annibynnol ar y llywodraeth, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn dibynnu ar haelioni ei chefnogwyr i barhau i ofalu am ein cefn gwlad a'n bywyd gwyllt fel y gall pawb fwynhau harddwch yr awyr agored am genedlaethau i ddod

Darganfyddwch fwy: www.nationaltrust.org.uk